

Adroddiad Gwaddol y Bumed Senedd

Mawrth 2021



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
www.senedd.cymru/SeneddDGCh

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddDGCh@senedd.cymru**
Twitter: **[@SeneddDGCh](https://twitter.com/SeneddDGCh)**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2021**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Adroddiad Gwaddol y Bumed Senedd

Mawrth 2021



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 28 Mehefin 2016. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.senedd.cymru/SeneddDGCh

Cadeirydd y Pwyllgor:



Bethan Sayed AS
Plaid Cymru

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Mick Antoniw AS
Llafur Cymru



John Griffiths AS
Llafur Cymru



Carwyn Jones AS
Llafur Cymru



Helen Mary Jones AS
Plaid Cymru



David Melding AS
Ceidwadwyr Cymreig

Meysydd craffu posibl ar gyfer y Chweched Senedd

Ymgysylltu

Dylai'r pwyllgor olynol ystyried cynnal mwy o'i gyfarfodydd ffurfiol yn rhithwir a/neu brif ffrydio cyfarfodydd hybrid. Byddai hyn yn caniatáu gwell cyfranogiad gan amrediad ehangach o randdeiliaid.

Dylai pwyllgor y Chweched Senedd barhau i arloesi o ran ymgysylltu yn uniongyrchol â'r cyhoedd er mwyn llywio gwaith y pwyllgor.

Dylai'r pwyllgor olynol weithio gyda'r Senedd leuenctid ar waith craffu/ymchwiliadau, yn ogystal â'i chanfasio ynghylch ei blaenoriaethau ar gyfer y rhaglen waith nesaf.

Y celfyddydau

Ariannu addysg cerddoriaeth a'r ddarpariaeth ohoni yn y tymor hir, o gofio ei phwysigrwydd wrth feithrin y to nesaf o artistiaid.

Archwiliodd pwyllgor y Bumed Senedd fynediad i ddiwylliant o ran mynd i'r afael â thlodi ac allgáu cymdeithasol. Gellir gwneud mwy yn y dyfodol i archwilio mynediad cefndiroedd ethnig amrywiol i ddiwylliant a'r hyn a all fod yn rhwystro rhai pobl rhag cael mynediad i'r byd hwnnw.

Y diwydiannau creadigol

Yr heriau i'r diwydiant cyhoeddi yn y tymor hir a dull Llywodraeth Cymru o ddarparu cymorth ariannol ar gyfer datblygu llenyddiaeth a chyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Cyflwyno rhaglen weithgaredd Cymru Greadigol, yn benodol strategaeth sgrîn Llywodraeth Cymru a'i hymrwymiaidau i fynd i'r afael â phrinder sgiliau yn y diwydiant sgrîn.

Mae'r trefniadau i artistiaid deithio yn yr UE ers i'r DU ymadael â'r Undeb Ewropeaidd wedi cael eu beirniadu gan artistiaid. Dylai'r pwyllgor nesaf ymchwilio i'r goblygiadau ariannol a chymdeithasol i gerddorion ac artistiaid sydd am rannu eu gwaith yn yr UE.

Dylai'r pwyllgor olynol fonitro gwaith Llywodraeth Cymru i ddatblygu a chyflawni cynllun gweithredu ar gyfer cerddoriaeth.

Treftadaeth

Cynnydd tuag at gyflwyno'r Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol i Gymru a'r Amgueddfa Chwaraeon.

Effaith colli incwm masnachol ar sefydliadau treftadaeth megis Amgueddfa Cymru a CADW o ganlyniad i bandemig COVID-19.

Llywodraeth Cymru i gyflawni ei hymateb i argymhellion y Pwyllgor yn yr adroddiad ar bwys yn cael eu coffáu mewn manau cyhoeddus.

Gweithrediad y Llyfrgell Genedlaethol o'r argymhellion yn adolygiad teilwredig diweddar Llywodraeth Cymru.

Cyfathrebu

Dylai'r pwyllgor olynol sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn ymateb i'r adroddiad ar ddatganoli darlledu ac yn monitro i ba raddau y cyflawnir unrhyw ymrwymadau a wneir yn yr ymateb.

Parhau i graffu ar ddarlledwyr gwasanaethau cyhoeddus i sicrhau eu bod yn cyflawni eu hymrwymadau i gynyddu'r graddau y mae cyfoeth cymunedau Cymru yn cael cynrychiolaeth yn allbwn y rhwydweithiau. Dylai Pwyllgor olynol gael tystiolaeth gan Channel 4 a Channel 5 i archwilio eu hallbwn ar gyfer cynulleidfaoedd Cymru ac o ran cynhyrchu yng Nghymru.

Asesu i ba raddau y mae gohebiaeth y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar y pandemig COVID-19 ar lefel y DU wedi bod yn gywir ac effaith yr ohebiaeth hon ar godi ymwybyddiaeth o benderfyniadau datganoledig.

Edrych ar sut mae Ofcom yn cynrychioli buddiannau Cymru mewn trafodaethau darlledu ar lefel y DU.

Y Gymraeg

Dylai Pwyllgor olynol barhau â'r ymchwiliad i'r Gymraeg yn y byd digidol, a ddechreuwyd gan y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu yn y Bumed Senedd.

Yn ystod y Bumed Senedd, lle mae cyfrifoldeb dros y Gymraeg wedi bod yn rhan o deitl Gweinidog, mae'r Pwyllgor wedi ceisio craffu yn rheolaidd ar waith y

Gweinidog hwnnw o ran cyflawni polisi a chyflenwi cyllid mewn perthynas â'r Gymraeg. Fodd bynnag, ar adegau gwahanol, nid yw'r Gweinidog sy'n gyfrifol dros oruchwylio polisi'r Gymraeg wedi mynd i'r afael yn foddhaol â'r materion a godwyd gan Aelodau. Yn rhy aml, mae cwestiynau Aelodau wedi cael eu cyfeirio at bortffolios Gweinidogion eraill, megis y Gweinidog Addysg. Dylai'r pwyllgor nesaf sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cael ei dwyn i gyfrif am faterion trawsbynciol, fel y Gymraeg.

Mae'n bwysig felly fod y Gweinidog perthnasol yn Llywodraeth Cymru yn atebol am gyflawni'r targedau Cymraeg 2050 hynny sy'n dod o fewn ei faes cyfrifoldeb.

Os nad oes Gweinidog Llywodraeth Cymru â chyfrifoldeb dros y Gymraeg, dylai'r Pwyllgor olynol ymchwilio i gyfleoedd yn y Chweched Senedd i gynnal sesiynau craffu ar y cyd/ymchwiliadau gyda phwyllgorau eraill i fonitro cynnydd tuag at dargedau Cymraeg 2050. Er enghraifft, sesiwn ar y cyd gyda'r pwyllgor a fydd yn gyfrifol am addysg, i fonitro targedau i gynyddu nifer yr athrawon a dysgwyr cyfrwng Cymru.

Effaith hirdymor pandemig COVID-19

Y ffyrdd y mae maes treftadaeth, y celfyddydau a'r sefydliadau diwylliannol yn ceisio adennill eu colledion neu addasu eu gweithgaredd at ddibenion eraill o ganlyniad i'r pandemig ac i ba raddau y mae lleihau eu dibyniaeth ar gymhorthdal cyhoeddus yn ddull ymarferol o hyd.

Y rôl y gall diwylliant ei chwarae yn adferiad economaidd a chymdeithasol Cymru wedi'r pandemig.

Dylai'r pwyllgor nesaf sicrhau bod sefydliadau cenedlaethol sydd â chyfrifoldeb dros hybu'r Gymraeg mewn digwyddiadau cyfranogol, megis yr Urdd, y Sioe Frenhinol a'r Eisteddfod, yn cael cefnogaeth ragweithiol yn eu gwaith yn sgil colledion economaidd difrifol oherwydd y pandemig.

Dylai'r pwyllgor nesaf ymchwilio i effaith y pandemig ar y defnydd o'r Gymraeg fel iaith gymunedol.

Cylch gwaith pwyllgor y dyfodol

Dylai Aelodau'r Chweched Senedd gynnull pwyllgor i graffu ar ddiwylliant, y Gymraeg a chyfathrebu, a byddai hyn yn cyflawni rôl werthfawr wrth ganolbwyntio ar:

- anghenion cyfryngau lleol a darlledu yng Nghymru;

- cyflawni uchelgais Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg; a'r
- gwaith i ehangu mynediad i dreftadaeth, y celfyddydau a'r diwydiannau creadigol, a sicrhau bod y sector yn cael ei gefnogi yn sgil y colledion a achoswyd gan y pandemig.

Dylai'r pwyllgor geisio cyfleoedd i gynnal gwaith craffu ar y cyd/ymchwiliadau gyda phwyllgorau eraill. Er enghraifft, gyda'r pwyllgor a fydd yn craffu ar yr economi i edrych ar ddiwydiannau creadigol.

Cyflwyniad

Nid crynhoi crynswth y gwaith y mae'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu wedi ei wneud yn y Bumed Senedd yw nod yr adroddiad hwn. Yn hytrach, mae'n tynnu sylw at rai canlyniadau o'i ymchwiliadau, ei waith craffu ar bolisi a deddfwriaeth, a'i waith ymgysylltu â rhanddeiliaid yn y gobaith y byddant yn dangos lle mae'r Pwyllgor wedi cael y dylanwad mwyaf. Yn aml, o ran effaith gronnus, mae gwaith craffu parhaus mewn un maes o weithgaredd y Llywodraeth wedi bod yn effeithiol, ond mewn rhai achosion fe gafwyd newid polisi neu ymrwymiad cyllid a ddymunwyd yn dilyn adroddiad neu sesiwn bwyllgor unigol.

Nid yw'n bosibl gwerthuso, ar yr adeg hon, beth fydd effaith gwaith y Pwyllgor yn y tymor hwy. Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at yr effaith fwy uniongyrchol y mae rhywfaint o waith y Pwyllgor wedi'i chael.

I bob maes yn y cylch gwaith mae awgrymiadau ar gyfer gwaith pellach y gallai'r Pwyllgor ddymuno ymgymryd ag ef yn y Senedd nesaf. Unwaith eto, nid crynodeb cyflawn o waith y Pwyllgor yw hwn; ceir hwnnw yn yr Atodiad i'r adroddiad hwn.

Hoffai'r Cadeirydd, a'r Aelodau, ddiolch i dystion a rhanddeiliaid am eu cyfraniad i waith y pwyllgor.

Yn ystod cyfnod mamolaeth Bethan Sayed AS, fe gadeiriwyd y Pwyllgor gan Helen Mary Jones AS, a diolchwn i'r ddwy ohonynt am eu harweinyddiaeth a'u hymrwymiad i godi proffil y materion o fewn y cylch gwaith hwn.

Cylch gwaith

1. Mae'r Pwyllgor wedi gwneud gwaith yn y meysydd a ganlyn:
 - y diwydiannau creadigol, gan gynnwys cerddoriaeth fyw, cynyrchiadau ffilm a theledu;
 - treftadaeth, amgueddfeydd ac archifau;
 - y celfyddydau;
 - newyddiaduraeth a darlledu; a'r
 - Gymraeg, gan gynnwys rheoliadau'r Gymraeg, addysg a hyrwyddo.
2. Dyma'r portffolios Cabinet yn Llywodraeth Cymru y mae'r Pwyllgor wedi craffu arnynt yn ystod y Bumed Senedd:

- y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth;
- Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes; a newidiwyd i Weinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol yn ddiweddarach; a newidiwyd i Weinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg yn ddiweddarach;
- Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru;
- Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip; a'r
- Gweinidog Addysg.

1. Ymgysylltu

3. O'r dechrau, roedd y Pwyllgor am i'w raglen waith gael ei gyfoethogi gan y cyhoedd. Gofynnodd y Pwyllgor yn uniongyrchol i bobl Cymru benderfynu ar ymchwiliad yn y dyfodol. Gofynnwyd am syniadau ar Facebook, ar Twitter, trwy e-bost, ac mewn digwyddiad yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Cafwyd dros 2,600 o ymatebion i'r arolwg cyntaf.

4. Roedd y pynciau a awgrymwyd yn cynnwys:

- sut y gellir cyflawni'r uchelgais o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg;
- pryder am y dirywiad parhaus yn y cyfryngau lleol a newyddiaduraeth leol;
- diffyg portread o Gymru ar rwydweithiau darlledu'r DU;
- rôl radio yng Nghymru; a
- chylch gwaith, cyllid ac atebolrwydd S4C.

5. Penderfynodd y Pwyllgor y byddai'n cynnal **ymchwiliad i'r Gymraeg**, gyda gweddill yr awgrymiadau (heb eu rhestru uchod) yn mynd gerbron y cyhoedd mewn ail arolwg. Cynhaliwyd y bleidlais mewn gweithdai a chyflwyniadau Allgymorth a gynhaliwyd mewn ysgolion a grwpiau ieuenctid ar gyfer pobl ifanc, ac mewn grwpiau cymunedol, busnesau a sefydliadau ar gyfer oedolion. Cafodd ymwelwyr â'r **Senedd ym Mae Caerdydd** hefyd eu hysbysu a'u hannog i gymryd rhan.

6. Cymerodd bron i 2,500 o bobl ran yn yr ail arolwg. Pleidleisiodd 44 y cant dros 'Addysgu hanes, diwylliant a threftadaeth Cymru mewn ysgolion'.

7. Cynhaliodd Clerc y Pwyllgor weithdy gyda'r Senedd leuenctid i gael eu blaenoriaethau ar gyfer gwaith pwyllgor. Defnyddiwyd eu sylwadau wrth lunio cylch gorchwyl yr ymchwiliad i'r Gymraeg yn y byd digidol.

8. Rhoddodd y Cadeirydd dystiolaeth i **Adolygiad Cairncross** Llywodraeth y DU ar ddyfodol cynaliadwy i newyddiaduraeth.

Y Pwyllgor allan ar leoliad

9. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod nad yw mwyafrif y bobl y mae am ymgysylltu â nhw bob amser yn gallu dod i gyfarfodydd ffurfiol yn y Senedd, felly fe gynhaliodd

gyfarfodydd ffurfiol a sesiynau ymgysylltu â rhanddeiliaid mewn lleoedd sy'n cynnwys amgueddfa Sain Ffagan, Canolfan Gelf Aberystwyth, Tramshed Caerdydd, a Thŷ Pawb yn Wrecsam. Fel rhan o'i ymchwiliad i gefnogi a hybu'r Gymraeg, fe glywodd y Pwyllgor yn uniongyrchol gan lunwyr polisi a'r darlledwr cenedlaethol yn Bilbao am eu hymdrechion i gynyddu nifer y siaradwyr Basgeg.

Dulliau o weithio

10. Roedd pawb a ymatebodd i'r ymgynghoriad ar gyfer yr adroddiad hwn o blaid y pwyllgor yn cynnal mwy o sesiynau rhithwir. Teimlai rhanddeiliaid fod sesiynau rhithwir yn haws i gyfranogwyr a bod gwneud hyn yn caniatáu i amrediad ehangach o bobl ymgysylltu â gwaith y pwyllgor. Er enghraifft, dywedodd Cymdeithas yr Iaith:

“Hoffem ganmol y Pwyllgor am ymdopi'n effeithiol i'r heriau sy'n codi yn sgîl Cofid 19; yn benodol, mae defnydd y Pwyllgor o dechnoleg wedi bod yn hynod lwyddiannus, ac wedi arwain at wneud gwaith y Pwyllgor yn fwy hygyrch. Wrth symud ymlaen heibio'r pandemig, dylai'r Pwyllgor barhau i ganiatáu i bobl gyflwyno tystiolaeth yn rhithiol gan nad yw gorfodi pobl i fynd i'r Senedd er mwyn iddynt allu rhoi tystiolaeth i'r Pwyllgor yn hygyrch, ac arweinia yn ogystal at ogwydd daearyddol yn y dystiolaeth y mae'r Pwyllgor yn ei gasglu.”¹

11. Galwodd Disability Can Do ar y Pwyllgor i sicrhau bod llawer mwy o ymgysylltiad yn y dyfodol â grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol. Dywedodd Allan Herbert:

“It is essential that the committee takes it upon itself to ensure that the involvement of citizens and communities are reflected in the design and implementation of public resources as regards arts and culture. It would be beneficial to have a process of consistent citizen representation within the mechanics of the committee and that this process is transparent and publicly available.”²

¹ Ymateb ysgrifenedig Cymdeithas yr Iaith

² Ymateb ysgrifenedig Disability Can Do

Ffyrdd posibl o weithio yn y Chweched Senedd:

Dylai'r pwyllgor olynol ystyried cynnal mwy o'i gyfarfodydd ffurfiol yn rhithwir a/neu brif ffrydio cyfarfodydd hybrid. Byddai hyn yn caniatáu gwell cyfranogiad gan amrediad ehangach o randdeiliaid.

Dylai pwyllgor y Chweched Senedd barhau i arloesi o ran ymgysylltu yn uniongyrchol â'r cyhoedd er mwyn llywio gwaith y pwyllgor.

Dylai'r pwyllgor olynol weithio gyda'r Senedd leuenctid ar waith craffu/ymchwiliadau, yn ogystal â'i chanfasio ynghylch ei blaenoriaethau ar gyfer y rhaglen waith nesaf.

2. Y celfyddydau

12. Un o'r meysydd a ystyriwyd gan y Pwyllgor yw'r angen i ddemocrateiddio mynediad i'r celfyddydau. Yn yr ymchwiliad i rôl diwylliant wrth fynd i'r afael â thlodi ac allgáu cymdeithasol fe edrychwyd ar raglen [Cyfuno](#) Llywodraeth Cymru a hefyd, yn ehangach, ar y ffyrdd y mae Cyngor y Celfyddydau yn hyrwyddo mynediad i bawb yn ei drefniadau cyllido ac ar y ffordd y mae ein cyrff diwylliannol blaenllaw yn gwneud gwaith allgymorth.

13. Yn dilyn yr argymhellion yn yr adroddiad hwn, bydd yn ofynnol i bawb sy'n cael cyllid gan Gyngor Celfyddydau Cymru nodi eu hamcanion ar gyfer mynd i'r afael â thlodi yn eu cynlluniau strategol, ac mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i gynyddu'r cyllid ar gyfer rhaglen Cyfuno, ochr yn ochr ag adolygiad cynhwysfawr o'r rhaglen yn erbyn ei hamcanion gwreiddiol. Dywedodd y Llywodraeth:

“Bydd cyllideb ddiwygiedig Cyfuno ar gyfer 2021-22 sef £430k yn cynnwys y bwriad i ehangu'r rhwydwaith cydlynwyr, gwerthusiad annibynnol a phrosiectau digidol fel rhan o'r ymrwymiad i adolygiad CWLC “minnau hefyd” o'r rhaglen Cyfuno.”³

14. Hefyd, fe ystyriodd y Pwyllgor y cyfleoedd i ddysgu a chwarae cerddoriaeth mewn ysgolion. Canfu'r ymchwiliad i [Ariannu addysg cerddoriaeth a mynediad ati](#) fod y ddarpariaeth addysg cerddoriaeth yn amrywio ledled Cymru. Argymhellwyd y 'dylai Llywodraeth Cymru drosglwyddo'r cyfrifoldeb dros ddarparu gwasanaethau cerddoriaeth i gorff cenedlaethol hyd braich sydd â model a phatrwm penodol ar gyfer darpariaeth pob rhanbarth.’⁴

15. Mewn ymateb, comisiynodd Llywodraeth Cymru astudiaeth ddichonoldeb. Yn y diwedd, penderfynodd y Gweinidog Addysg yn erbyn sefydlu corff newydd, gan ddweud:

“Mae perygl y bydd trefniadau llywodraethu yn cael gormod o sylw ar draul ystyriaethau mwy sylfaenol o ran natur y gwasanaethau y dylid eu darparu a sut y gellir sicrhau ansawdd ac effeithiolrwydd yn y man darparu.”⁵

³ Papur briffio Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2020-21

⁴ [Taro'r Tant: ymchwiliad i ariannu addysg cerddoriaeth a mynediad ati](#)

⁵ [Astudiaeth Ddichonoldeb Gwasanaethau Cerdd](#)

16. Croesawodd y Pwyllgor y cynnydd sylweddol yn y cyllid ar gyfer addysg gerddoriaeth, gyda Llywodraeth Cymru yn ymrwymo £1.5 miliwn y flwyddyn o 2018-19. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor o'r farn y byddai cyflenwi addysg gerddoriaeth yn elwa ar strategaeth gynhwysfawr a chynllun cyllido hirdymor, ac mae'n faes lle y byddai gwaith craffu pellach yn fuddiol.

Meysydd craffu posibl ar gyfer y Chweched Senedd:

Ariannu a chyflenwi addysg cerddoriaeth yn y tymor hir, o gofio ei phwysigrwydd wrth feithrin y to nesaf o artistiaid.

Archwiliodd pwyllgor y Bumed Senedd fynediad i ddiwylliant o ran mynd i'r afael â thlodi ac allgau cymdeithasol. Gellir gwneud mwy yn y dyfodol i archwilio mynediad cefndiroedd ethnig amrywiol i ddiwylliant a'r hyn a all fod yn rhwystro mynediad rhai pobl i'r byd hwnnw.

3. Y diwydiannau creadigol

17. Clywodd y Pwyllgor hwn gan randdeiliaid fod Cymru Greadigol - sef corff hyd braich sy'n gyfrifol am 'ysgogi twf ar draws y diwydiannau creadigol' - wedi ymateb o'r dechrau'n deg yn amserol wrth ddarparu cymorth i'r rhai yr oedd cyfyngiadau symud COVID-19 wedi effeithio arnynt. Mater i'r pwyllgor perthnasol yn y Chweched Senedd fydd craffu ar Gymru Greadigol ynghylch cyflawni ei rhaglen uchelgeisiol o weithgareddau.

18. Canfu'r ymchwiliad i gynrychiadau ffilm a theledu mawr fod twf yn niwydiannau sgrin Cymru yn fwy na'r twf a welwyd yng ngweddill y DU dros y degawd diwethaf. Mae'r sector yn ffynnu, ond cafodd yr ymchwiliad nad yw'n eglur pa rôl y mae Llywodraeth Cymru wedi'i chwarae yn y llwyddiant hwn. Roedd ei chronfa flaenllaw, Cyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau, wedi methu â sicrhau'r enillion disgwylidig a chwynodd rhanddeiliaid am brinder sgiliau posibl. Galwodd y Pwyllgor ar Lywodraeth Cymru i lunio strategaeth a fyddai'n mynd â'r sector i'r lefel nesaf.

19. Mewn ymateb, mae Llywodraeth Cymru yn llunio strategaeth sgrin sy'n blaenoriaethu datblygu sgiliau a'r gadwyn gyflenwi a hyrwyddo diwylliant a thalent Cymru. Hefyd, rhoes y Llywodraeth ymrwymiad y byddai'n 'Datblygu fframwaith o ddarparwyr cymorth arbenigol i ddarparu hyfforddiant amserol ac ymatebol i lenwi bylchau.'⁶

20. Yn anffodus, nid oedd gan y Pwyllgor amser i ystyried hyrwyddo a chefnogi llenyddiaeth y tu hwnt i'w adolygiad o'r canfyddiadau ynghylch yr Adolygiad Annibynnol o Gymorth ar gyfer Cyhoeddi a Llenyddiaeth yng Nghymru.

Cerddoriaeth

21. Ystyriodd y Pwyllgor yr heriau sy'n wynebu'r sector cerddoriaeth fyw yn 2020. Yn yr un adroddiad roedd y Pwyllgor i fod i argymhell pot cyllido i ddiogelu lleoliadau ar lawr gwlad sydd mewn perygl, ond, yn ffodus, achubodd Llywodraeth Cymru'r blaen ar hyn. Yn yr un modd, achubodd Llywodraeth Cymru'r blaen ar argymhelliad y dylid cynnal ymarfer i fapio lleoliadau trwy ymrwymo i gynnal yr ymarfer eto a'i ehangu i gynnwys mannau ymarfer a mannau recordio. Yn ogystal, mewn ymateb i'r argymhelliad i ddatblygu strategaeth gerddoriaeth, dywedodd Llywodraeth Cymru:

⁶ Ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad ar ffilm a theledu

“Bydd Cymru Greadigol yn datblygu “Cynllun Gweithredu” Cymru gyfan yn hytrach na “Strategaeth” ar gyfer y Diwydiant Cerddoriaeth Fasnachol yng Nghymru. Bydd yn adlewyrchu’r angen am gamau gweithredu tymor byr i gynorthwyo’r sector adfer o’r pandemig COVID-19 a chynlluniau tymor hwy er mwyn datblygu’r sector ar gyfer dyfodol cynaliadwy, mewn marchnad fyd-eang.”⁷

22. Heb os, oherwydd yr ymchwiliad i’r sector cerddoriaeth fyw, cafodd proffil yr heriau sy’n wynebu’r diwydiant eu codi, a hynny, drwy gyd-ddigwyddiad, yn union cyn i gyfnod y cyfyngiadau symud arwain at golledion enfawr. Trwy gytuno i sefydlu cronfa i gefnogi lleoliadau ar lawr gwlad, mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod bod y lleoliadau hyn yn feithrinfeydd pwysig ar gyfer talent ac asedau diwylliannol y dyfodol y dylid eu cefnogi. Gynt, byddai lleoliadau cerddoriaeth fyw yn rhy ‘fasnachol’ i fod yn gymwys i gael cymorth gan Gyngor Celfyddydau Cymru ac yn rhy fach i gael cymorth gan Fusnes Cymru. Mae gwaith y Pwyllgor yn y maes hwn wedi llwyddo i dynnu sylw’r Llywodraeth at werth lleoliadau ar lawr gwlad.

23. Mae Diwydiannau Creadigol yn faes twf hanfodol i economi Cymru. Er enghraifft, clywodd y Pwyllgor gan Tim Davie, Cyfarwyddwr Cyffredinol y BBC:

“It is a growth area; it was growing four times the speed of the wider economy going into COVID. We need Wales to capture its fair share, at minimum, of that growth coming out, and there are really good signs that we can make that happen.”⁸

24. Er mwyn manteisio ar y cyfleoedd ar gyfer twf yn y diwydiannau creadigol ac i godi proffil y celfyddydau, diwylliant a threftadaeth, byddai’n well pe bai’r portffolio hwn yn gyfrifoldeb Gweinidog, yn hytrach na Ddirprwy Weinidog.

Meysydd craffu posibl ar gyfer y Chweched Senedd:

Yr heriau i’r diwydiant cyhoeddi yn y tymor hir, a dull Llywodraeth Cymru ar gyfer darparu cymorth ariannol ar gyfer datblygu meysydd llenyddiaeth a chyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Cyflwyno rhaglen weithgaredd Cymru Greadigol, yn benodol strategaeth sgrîn Llywodraeth Cymru a’i hymrwymiaadau i fynd i’r afael â phrinder sgiliau yn y diwydiant sgrin.

⁷Ymateb Llywodraeth Cymru i’r adroddiad ar y diwydiant cerddoriaeth fyw

⁸Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 4 Mawrth 2021, paragraff 14

Mae'r trefniadau i artistiaid deithio yn yr UE ers i'r DU ymadael â'r Undeb Ewropeaidd wedi cael eu beirniadu gan artistiaid. Dylai'r pwyllgor nesaf ymchwilio i'r goblygiadau ariannol a chymdeithasol i gerddorion ac artistiaid sydd am rannu eu gwaith yn yr UE.

Dylai'r pwyllgor olynol fonitro gwaith Llywodraeth Cymru i ddatblygu a chyflawni cynllun gweithredu ar gyfer cerddoriaeth.

4. Treftadaeth

- 25.** Cwblhaodd y Pwyllgor ymchwiliadau i'r amgylchedd hanesyddol, addysgu hanes Cymru yn y cwricwlwm newydd ac effaith y pandemig ar dreftadaeth, amgueddfeydd ac archifau.
- 26.** Yn ogystal ag ymchwiliadau, cynhaliodd y Pwyllgor sesiynau craffu blynyddol gyda'r cyrff perthnasol a noddir gan y Llywodraeth. Yn dilyn y sesiynau hyn, galwodd y Pwyllgor sawl gwaith am fuddsoddiad cyfalaf uwch yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac Amgueddfa Cymru. Er enghraifft, ym mis Tachwedd 2019 clywodd y Pwyllgor gan Neil Wicks, Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol Amgueddfa Cymru Amgueddfa Genedlaethol Cymru, ei bod yn debyg bod y ffigur ar gyfer ôl-groniad cynnal a chadw a gwaith cynnal a chadw ataliol bellach rywle oddeutu £50 miliwn.⁹
- 27.** Galwodd y Pwyllgor hefyd am gyllid uwch i'r Llyfrgell Genedlaethol er mwyn lliniaru, yn ôl disgrifiad undeb yr FDA, dros ddegawd o doriadau i gymorth grant¹⁰ ac i roi sicrwydd i staff na fyddai diswyddiadau.
- 28.** Ym mis Chwefror 2021 fe gyhoeddodd Llywodraeth Cymru gyllid ychwanegol gwerth £6.2 miliwn dros ddwy flynedd ar gyfer Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac ar gyfer Amgueddfa Cymru, gan ddweud y bydd y cyllid yn 'lliniaru'r risg o golli swyddi a hefyd yn helpu'r ddau sefydliad i dalu costau gweithredol.'¹¹
- 29.** Ym mis Rhagfyr 2018 sylweddolodd y Pwyllgor fod yr achos busnes dros grant gwerth £5 miliwn gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri i sefydlu Archif Ddarlledu Genedlaethol i Gymru mewn perygl. Yn dilyn ymyrraeth y Pwyllgor i ddod â'r partïon â diddordeb ynghyd cyn gynted â phosibl, datryswyd y materion a oedd heb eu datrys. Ymrwymodd Llywodraeth Cymru gyllid gwerth £1 filiwn i Lyfrgell Genedlaethol Cymru a sicrhawyd y grant gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri.

Meysydd craffu posibl ar gyfer y Chweched Senedd:

Cynnydd tuag at gyflwyno'r Oriol Gelf Gyfoes Genedlaethol i Gymru a'r Amgueddfa Chwaraeon.

⁹Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 14 Tachwedd 2019, paragraff 10

¹⁰ Cohebiaeth FDA

¹¹ [Datganiad Llywodraeth Cymru](#)

Effaith colli incwm masnachol ar sefydliadau treftadaeth megis Amgueddfa Cymru a CADW o ganlyniad i bandemig COVID-19.

Llywodraeth Cymru i gyflawni ei hymateb i argymhellion y Pwyllgor yn yr adroddiad ar bwy sy'n cael eu coffáu mewn manau cyhoeddus.

Gweithrediad y Llyfrgell Genedlaethol o'r argymhellion yn adolygiad teilwredig diweddar Llywodraeth Cymru.

5. Cyfathrebu

30. Am y tro cyntaf, cafodd y materion sy'n effeithio ar newyddiaduraeth, y cyfryngau lleol a darlledu sylw manwl gan bwyllgor yn y Senedd.

31. Yn 2018, cynhaliodd y Pwyllgor ymchwiliad i newyddiaduraeth newyddion a ganfu fod effaith y dirywiad o ran papurau newydd print traddodiadol wedi bod yn fwy yng Nghymru oherwydd bod y cyfryngau Cymreig yn llai o ran maint ac yn llai amrywiol na'r cyfryngau a geir mewn rhannau eraill o'r DU. Argymhelliad yr adroddiad oedd y dylai Llywodraeth Cymru gydnabod yn ffurfiol fod cefnogi newyddiaduraeth sydd o fudd i'r cyhoedd yng Nghymru yn flaenoriaeth strategol ac yn hollbwysig i ddemocratiaeth yng Nghymru.

32. Yn dilyn yr ymchwiliad hwn, darparodd Llywodraeth Cymru £100,000 yn flynyddol i gefnogi darparwyr ym maes newyddion hyperleol.

33. Ym mis Rhagfyr 2020, pan holwyd y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth ynghylch yr angen parhaus i gefnogi newyddiaduraeth Saesneg, dywedodd ei fod yn gobeithio gallu cyflwyno cynllun a allai gynnig cefnogaeth hyd braich.¹² Cadarnhawyd hyn ym mis Ionawr 2021 pan ddywedodd:

“Mae'r datblygiadau yna yn parhau i ddigwydd, ond bydd y model yn debyg i beth sydd gyda ni yn y Gymraeg, gyda chydweithrediad efo Cyngor Llyfrau Cymru, sydd wrth gwrs yn rhan bellach o Gymru Greadigol”.¹³

34. Yn y Bumed Senedd roedd ymagwedd gyson tuag at graffu blynyddol ar ddarledwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru am y tro cyntaf. Yn ystod y sesiynau hyn mae'r Pwyllgor wedi ceisio tynnu sylw'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ar lefel y DU at y ffaith nad yw Cymru wedi cael ei chynrychioli cystal â gweddill y DU.

35. Er enghraifft, yn 2017, yn yr adroddiad ar ei safbwyntiau cychwynnol ar ddarlledu, argymhellodd y Pwyllgor y dylai'r BBC:

“ddarparu £30 miliwn ychwanegol bob blwyddyn ar gyfer dramâu Saesneg a darlledu am Gymru”, a fyddai “o bosibl yn caniatáu ar gyfer dyblu'r allbwn ac i BBC Cymru gynhyrchu rhaglenni o ansawdd sydd â

¹² Dadl yn y Cyfarfod Llawn, 2 Rhagfyr 2020.

¹³ Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 14 Ionawr 2021, paragraff 94

siawns well o ennill lle ar rwydwaith y BBC".¹⁴ Ers hynny, mae'r BBC wedi ymrwymo i fuddsoddi £8.5 miliwn y flwyddyn yn ychwanegol mewn rhaglenni Saesneg i Gymru.¹⁵

36. Yn yr un adroddiad, rydym yn argymhell bod ITV 'yn mabwysiadu dull mwy rhagweithiol o ddatblygu rhaglenni i'w darlledu ar rwydwaith ITV, gan gynnwys pennu nodau penodol ar gyfer datblygu cynnyrch rhwydwaith o Gymru, sy'n adlewyrchu bywyd yng Nghymru.'¹⁶

37. Achubodd adroddiad y Pwyllgor ar ddyfodol S4C y blaen ar yr adolygiad annibynnol o S4C a'i lywio – cyflwynwyd adroddiad yr adolygiad hwnnw i Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon Llywodraeth y DU ('DCMS') yn 2017. Dywedodd y Pwyllgor fod toriadau yng nghyllid S4C, y darlledwr Cymraeg, 'wedi bod yn ddifrifol ac yn anghymesur' a'u bod yn cael 'effaith barhaol a difrifol ar ei gallu i ddarparu ei gwasanaeth'.¹⁷

38. Derbyniodd y DCMS pob un o argymhellion yr adolygiad annibynnol, gan gynnwys yr angen i ddiweddarau cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus S4C i 'gynnwys gwasanaethau digidol ac ar-lein a chael gwared ar y cyfyngiadau darlledu daearyddol cyfredol. [A hynny er mwyn] caniatáu S4C i ehangu ei orwelion a chynnig cynnwys ar ystod eang o lwyfannau newydd yn y DU a thu hwnt.'¹⁸

39. Ym mis Tachwedd 2020 dechreuodd Llywodraeth y DU, yn ffurfiol, y broses i gytuno ar lefel ffi'r drwydded o 2022 ymlaen. Dyma'r tro cyntaf y bydd ffi'r drwydded hefyd yn cwmpasu'r holl arian cyhoeddus a ddarperir i S4C. Trafodir pwysigrwydd y ddadl ynghylch ffi'r drwydded a'r heriau sy'n wynebu darparwyr cynnwys Cymraeg yn yr adroddiad gan y Pwyllgor ar ddatganoli darlledu. Un o'r argymhellion yn yr adroddiad, yn dilyn llawer o drafod ar ddichonoldeb modelau rheoleiddio ac ariannu yn y dyfodol, yw y dylai Llywodraeth y DU ddatganoli pwerau dros S4C a materion eraill yn ymwneud â darlledu gwasanaeth cyhoeddus Cymraeg i Gymru.

¹⁴ Y Darlun Mawr: Safbwyntiau cychwynnol y Pwyllgor ar Ddarlledu yng Nghymru

¹⁵ Ibid

¹⁶ Y Darlun Mawr: Safbwyntiau cychwynnol y Pwyllgor ar Ddarlledu yng Nghymru, mis Chwefror 2017

¹⁷ Tu Allan i'r Bocs: Dyfodol S4C, mis Awst 2017

¹⁸ Ymateb Llywodraeth y DU i'r Adolygiad Annibynnol o S4C: 'Creu S4C ar gyfer y Dyfodol'

- 40.** Galwodd yr adroddiad hefyd am i Lywodraeth Cymru gael rôl well wrth bennu telerau'r drwydded Channel 3 nesaf yng Nghymru, a ddylai gynnwys gofyniad i gynhyrchu cyfran fwy o gynnwys rhwydwaith yng Nghymru.
- 41.** Canfu'r ymchwiliad i **radio yn 2018** nad yw dadreoleiddio darlledu radio masnachol yn digwydd mewn ffordd sy'n creu budd i gynulleidfaedd Cymru. Argymhellodd y Pwyllgor y dylai Llywodraeth y DU gyflwyno gofyniad rheoleiddiol i orsafoedd radio masnachol yng Nghymru adrodd ar newyddion Cymreig ei natur, yn ogystal â newyddion lleol a'r DU fel rhan o'i diwygiadau ar gyfer radio masnachol. Galwodd hefyd ar i'r BBC archwilio opsiynau i alluogi Cymru i optio allan o wasanaethau radio rhwydwaith ac i osod targedau mwy ymestynnol iddo'i hun ar gyfer cynnwys radio rhwydwaith y DU o Gymru.¹⁹
- 42.** Yn yr un adroddiad fe ymdriniwyd â'r heriau sy'n wynebu radio cymunedol, ac argymhellwyd y dylai Llywodraeth Cymru ystyried cyflwyno cronfa newydd i gefnogi'r sector, gan ystyried unrhyw synergeddau rhwng radio cymunedol a darparwyr newyddion hyperleol eraill. Wrth edrych ar effaith y pandemig ar gyfryngau lleol, clywodd y Pwyllgor am y rôl hanfodol y mae radio cymunedol wedi ei chwarae wrth ddarparu gwybodaeth amserol a chywir am reoliadau'r cyfyngiadau symud.
- 43.** Yn ystod y Bumed Senedd, ysgrifennodd y Pwyllgor at Ofcom:
- i ddweud bod cais y BBC i newid y Drwydded Weithredu i gael gwared ar y cwota llafar 100 y cant yn y slot brecwast yn glastwreiddio cynnwys penodol i Gymru ar gyfer cynulleidfaedd Cymru;
 - i ddadlau yn erbyn cynnig Ofcom i wneud Cymru gyfan yn 'ardal gymeradwy' unigol er mwyn pennu cyfran yr oriau radio masnachol 'lleol' y mae'n rhaid i orsafoedd eu cynhyrchu er mwyn iddynt fodloni rhwymedigaethau eu trwyddedau;
 - i leisio cefnogaeth dros slot newyddion optio allan i Gymru ar gyfer BBC Radio 1 a Radio 2.
- 44.** Gan adlewyrchu ar y ffordd yr ymdriniwyd â'r materion hyn ar lefel y DU, gall y Pwyllgor nesaf ddewis edrych ar sut mae anghenion Cymru yn cael eu hyrwyddo pan fydd penderfyniadau ar reoliadau darlledu yn cael eu trafod.

¹⁹ Ar yr un donfedd: Ymchwiliad i Radio yng Nghymru, mis Rhagfyr 2018
<https://senedd.cymru/laid%20documents/cr-ld11993/cr-ld11993-w.pdf>

Meysydd craffu posibl ar gyfer y Chweched Senedd:

Dylai'r pwyllgor olynol sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn ymateb i'r adroddiad ar ddatganoli darlledu ac yn monitro i ba raddau y cyflawnir unrhyw ymrwymïadau a wneir yn yr ymateb.

Parhau i graffu ar ddarlledwyr gwasanaethau cyhoeddus i sicrhau eu bod yn cyflawni eu hymrwymïadau i gynyddu'r graddau y mae cyfoeth cymunedau Cymru yn cael cynrychiolaeth yn allbwn y rhwydweithiau. Dylai Pwyllgor olynol gael tystiolaeth gan Channel 4 a Channel 5 i archwilio eu hallbwn ar gyfer cynulleidfaoedd Cymru ac o ran cynhyrchu yng Nghymru.

Asesu i ba raddau y mae gohebiaeth y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar y pandemig COVID-19 ar lefel y DU wedi bod yn gywir ac effaith yr ohebiaeth hon ar godi ymwybyddiaeth o benderfyniadau datganoledig.

Edrych ar sut mae Ofcom yn cynrychioli buddiannau Cymru mewn trafodaethau darlledu ar lefel y DU.

6. Y Gymraeg

- 45.** Cynhaliodd y Pwyllgor ddau ymchwiliad i faterion yn ymwneud â'r Gymraeg. Yn y cyntaf, ymdriniwyd â Strategaeth Llywodraeth Cymru i'r Gymraeg sydd â'r nod o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, hynny yw, bron â dyblu nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg yng Nghymru mewn ychydig dros genhedlaeth.
- 46.** Prif bryderon y Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad oedd y diffyg manylder yn y strategaeth ynghylch cyflawni hyn; y diffyg adnoddau; dibyniaeth yn y strategaeth ar y sector addysg a gynhelir a'r ffaith nad oedd Awdurdodau Lleol wedi gwneud digon i ysgogi'r galw am fwy o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn gwasanaethau cyhoeddus.
- 47.** Mewn ymateb i argymhellion y Pwyllgor, cytunodd Llywodraeth Cymru i gynnwys targedau ar gyfer nifer yr athrawon ychwanegol sydd eu hangen i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Ers i'r adroddiad gael ei gyhoeddi, mae'r cynnydd tuag at gyrraedd y targedau hyn wedi disgyn ymhell islaw'r hyn sydd ei angen. Ym mis Chwefror 2017, dywedodd y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg wrth y Pwyllgor:
- “...mae lot o ymdrech wedi mynd mewn, ond rŷn ni, wrth gwrs, yn siomedig nad ydyn ni wedi cyrraedd y targed yna, ac rŷn ni'n ymwybodol iawn bod angen inni wneud lot mwy o waith yn y maes yma.”²⁰
- 48.** Dylai pwyllgor y Chweched Senedd â chyfrifoldeb am y Gymraeg asesu'r cynnydd a wneir yn erbyn y targedau yn strategaeth Cymraeg 2050, gan flaenoriaethu'r targedau ar gyfer athrawon ac addysg cyfrwng Cymraeg.
- 49.** Yn yr ail ymchwiliad, ymrddiniwyd â sut mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi a hybu'r Gymraeg, wedi ei sbarduno gan y cynigion ym Mhapur Gwyn y Llywodraeth ar gyfer Bil newydd ar y Gymraeg ym mis Awst 2017.
- 50.** Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth bod y fframwaith cyfredol ar gyfer safonau'r Gymraeg yn gymhleth ac yn fiwrocraidd, a bod y system gwynion yn cael ei hystyried yn rhy hir ac yn feichus. Fodd bynnag, clywodd y Pwyllgor hefyd fod y fframwaith presennol yn rhoi sicrwydd i sefydliadau, yn ogystal â hawliau cryf i siaradwyr Cymraeg. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad bod y ffocws ar ddeddfwriaeth wedi tynnu sylw ac adnoddau oddi wrth elfennau “meddalach” cynllunio iaith, a

²⁰ Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 25 Chwefror 2021, para 21

hyrwyddo'r iaith yn benodol. Roedd diffyg eglurder o ran rolau a chyfrifoldeb rhwng Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg hefyd yn bryder.

51. O ganlyniad i'r argymhellion yn yr adroddiad, cytunodd Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth i egluro eu swyddogaethau perthnasol. Mae'r broses ar gyfer ymdrin â chwynion hefyd wedi cael ei symleiddio a'i chyflymu. Mae tîm amlddisgyblaethol newydd o'r enw Prosiect 2050 wedi cael ei sefydlu yn y Llywodraeth i ysgogi cynllunio, hyrwyddo a newid ymddygiad.

52. Tynnodd Llywodraeth Cymru y cynigion yn y Papur Gwyn yn ôl, gan ddweud ei bod wedi nodi:

“y dystiolaeth a dderbyniodd y Pwyllgor yn ystod yr adolygiad hwn. Wrth baratoi safonau ar gyfer y dyfodol byddwn yn ystyried sut y gellid eu symleiddio, a'u paratoi mewn modd sy'n lleihau'r fiwrocratiaeth ar gyrrff, wrth sicrhau eu bod yn dal i roi hawliau clir i ddefnyddwyr.”²¹

53. Mae llawer o gyfranogwyr sy'n ymwneud â chefnogi a hybu'r iaith yng Nghymru. Cyfranogwr o'r fath yw'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol ('y Coleg'). Mae'r Coleg yn arwain ar ddatblygu addysg a hyfforddiant Cymraeg a dwyieithog yn y sector ôl-orfodol yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys datblygu a gwella cyrsiau cyfrwng Cymru, a chynyddu nifer y staff dwyieithog yn y sector ôl-16. Fel rhan o'i waith craffu diweddar ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22, clywodd y Pwyllgor fod angen adnoddau addas ar y sector²² er mwyn cyflawni'r uchelgeisiau yn y Cynllun Gweithredu y cytunwyd arnynt yn 2018.

54. Ysgrifennodd y Coleg at Gadeirydd y Pwyllgor ym mis Ionawr, yn nodi y rhagwelir y bydd angen i Lywodraeth Cymru fuddsoddi £800,000 ar gyfer 2021-22, gan gynyddu i £1.4 miliwn yn 2022-23, £2.5 miliwn yn 2023-24 a £3.2 miliwn yn 2024-25 er mwyn i'r Coleg sicrhau cynnydd sylweddol yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

55. O ganlyniad i waith craffu'r Pwyllgor, a gwaith craffu gan Aelodau yng Nghyfarfod Llawn y Senedd, roedd Cyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22 yn cynnwys cyllid ychwanegol gwerth £800,000 ar gyfer y Coleg.

²¹ Ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad ar gefnogi a hybu'r Cymraeg

²² Gohebiaeth Coleg Cymraeg Cenedlaethol

- 56.** Yn 2019 fe gynhaliwyd ymchwiliad llawn i [addysgu hanes Cymru](#), yn dilyn canlyniadau arolwg cyhoeddus y Pwyllgor lle y nododd 40 y cant o'r ymatebwyr eu bod am i'r Pwyllgor ymchwilio i'r mater.
- 57.** Yn wyneb cynigion ar gyfer newidiadau eang i'r cwricwlwm ysgol, cafodd y Pwyllgor fod gan athrawon, cymdeithasau hanes, disgyblion ac academyddion bryderon mawr nad yw plant yn gwybod stori eu cymuned na'u gwlad a bod plant yn aml yn nodi eu bod wedi dysgu mwy am hanes Cymru mewn gwerau Gymraeg nag a gawsant gan eu hathro hanes. Roedd y pryderon hyn yn cynyddu o ganlyniad i'r newidiadau arfaethedig i'r cwricwlwm.
- 58.** Yn unol â'r argymhelliad yn yr adroddiad ar [addysgu hanes Cymru](#), bydd Estyn yn cynnal adolygiad o'r ffordd y mae ysgolion Cymru'n dysgu hanes ar hyn o bryd. Bydd yr adolygiad hwn yn darparu tystiolaeth o'r graddau y mae ysgolion yn bodloni gofynion y manylebau TGAU, UG a Safon Uwch ar addysgu cynnwys Cymreig.
- 59.** Roedd y Pwyllgor yn siomedig bod Llywodraeth Cymru wedi gwrthod yr argymhelliad i 'gynnwys canllaw sy'n nodi corff cyffredin o wybodaeth ar gyfer yr holl ddisgyblion sy'n astudio hanes'²³ yn y cwricwlwm newydd.
- 60.** Roedd y Pwyllgor yng nghyfnod cychwynol ymchwiliad newydd i'r [Gymraeg yn y byd digidol](#) yn 2020. Bwriad yr ymchwiliad oedd gwerthuso nodau ac amcanion y cynllun gweithredu technoleg Gymraeg a sut mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid eraill a chwmnïau technoleg i ddylanwadu ar y sector technoleg. Fodd bynnag, gohiriwyd y gwaith pan newidiodd blaenoriaethau'r Pwyllgor oherwydd pandemig COVID-19.

Meysydd craffu posibl ar gyfer y Chweched Senedd

Dylai Pwyllgor olynol barhau â'r ymchwiliad i'r Gymraeg yn y byd digidol, a ddechreuwyd gan y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu yn y Bumed Senedd.

Yn ystod y Bumed Senedd, lle mae cyfrifoldeb dros y Gymraeg wedi bod yn rhan o deitl Gweinidog, mae'r Pwyllgor wedi ceisio craffu yn rheolaidd ar waith y Gweinidog hwnnw o ran cyflawni polisi a chyflenwi cyllid mewn perthynas â'r Gymraeg. Fodd bynnag, ar adegau gwahanol, nid yw'r Gweinidog sy'n gyfrifol dros oruchwylio polisi'r Gymraeg wedi mynd i'r afael yn foddhaol â'r materion a godwyd gan Aelodau. Yn rhy aml, mae cwestiynau Aelodau wedi cael eu cyfeirio

²³Adroddiad ar [Addysgu hanes Cymru](#)

at bortffolios Gweinidogion eraill, megis y Gweinidog Addysg. Dylai'r pwyllgor nesaf sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cael ei dwyn i gyfrif am faterion trawsbynciol, fel y Gymraeg.

Mae'n bwysig felly fod y Gweinidog perthnasol yn Llywodraeth Cymru yn atebol am gyflawni'r targedau Cymraeg 2050 hynny sy'n dod o fewn ei faes cyfrifoldeb.

Os nad oes Gweinidog Llywodraeth Cymru â chyfrifoldeb dros y Gymraeg, dylai'r Pwyllgor olynol ymchwilio i gyfleoedd yn y Chweched Senedd i gynnal sesiynau craffu ar y cyd/ymchwiliadau gyda phwyllgorau eraill i fonitro cynnydd tuag at dargedau Cymraeg 2050. Er enghraifft, sesiwn ar y cyd gyda'r pwyllgor a fydd yn gyfrifol am addysg, i fonitro targedau i gynyddu nifer yr athrawon a dysgwyr cyfrwng Cymru.

7. Effaith hirdymor pandemig COVID-19

61. Oherwydd effaith y pandemig, gohiriwyd gwaith y Pwyllgor ym mis Mawrth, gan ailgychwyn yn rhithwir ym mis Mai 2020. Roedd yr effaith ar unigolion a sefydliadau yn sydyn ac yn sylweddol. Rhwng colli'r gallu i godi refeniw masnachol a cholli cyfleoedd i ddod ynghyd i fwynhau gweithgareddau diwylliannol, roedd yr effaith ar holl randdeiliaid y pwyllgor yn ddirfawr. Mae effeithiau ariannol a chymdeithasol hirdymor y pandemig yn bwnc ar gyfer gwaith craffu yn y Senedd nesaf.

62. Cynhaliodd y Pwyllgor gyfres o ymchwiliadau byr i effaith y pandemig ar bob maes yn ei gylch gwaith, gan gyhoeddi chwe adroddiad rhwng mis Mehefin a mis Rhagfyr 2020. Oherwydd pwysau gwaith y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, edrychodd y pwyllgor hwn ar chwaraeon hefyd.

63. Roedd themâu cyffredin, gan gynnwys:

- colledion incwm sydyn a dramatig i sefydliadau a oedd yn gorfod cau;
- y pryder o beidio â gwybod pryd y byddai lleoliadau'n cael ailagor; a'r
- ffaith bod mwyafrif y rhai sy'n gweithio yn niwydiannau'r celfyddydau ac mewn meysydd creadigol yn weithwyr llawrydd ac yn methu â chael cymorth cyflogaeth gan Lywodraeth y DU.

64. Mae mwyafrif y sefydliadau o dan gylch gwaith y Pwyllgor yn bodoli at ddibenion gweithgareddau cyfranogol, gan gynnwys lleoliadau cerddoriaeth fyw, amgueddfeydd, mentrau hybu'r Gymraeg a pherfformiadau dawn. Bu'n rhaid i bob un o'r rhain roi stop ar eu gwaith am dros flwyddyn.

65. Mae Llywodraeth Cymru wedi annog sefydliadau diwylliannol i leihau eu dibyniaeth ar gymhorthdaliadau cyhoeddus er mwyn cynyddu eu gwytnwch gan fod arian gan Lywodraeth Cymru a'r Loteri Genedlaethol wedi gostwng dros 10 y cant yn y degawd diwethaf.²⁴ Clywodd y Pwyllgor gan Nick Capaldi, Prif Weithredwr Cyngor Celfyddydau Cymru: "Ironically, those organisations that are least dependent on public funding have been the ones hardest hit".²⁵

66. Mae sefydliadau cenedlaethol sy'n esiamplau o arfer da o ran hybu cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg ac o ran ei dysgu - megis yr Urdd a'r Eisteddfod

²⁴ Meithrin Cydnerthedd: Ymchwiliad i gyllid heblaw cyllid cyhoeddus ar gyfer y celfyddydau

²⁵ Adroddiad byr ar effaith pandemig COVID-19 ar y celfyddydau

Genedlaethol - yn wynebu heriau ariannol sylweddol. Argymhellodd y Pwyllgor na ddylai ail-flaenoriaethu cronfeydd yn y tymor byr, er enghraifft o'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i'r gronfa COVID ganolog, arwain at newidiadau tymor hir i ddyraniadau. Gallai mesurau o'r fath danseilio'r gwaith i gyflawni'r nod o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.²⁶

67. Dyma a ganfu'r ymchwiliadau COVID-19:

- Ysgogodd y pandemig newid tuag at ymgysylltu a darpariaeth ddigidol. Er mwyn i hyn lwyddo yn y tymor hir, mae angen gwariant cynyddol ar hyfforddiant a mynediad at seilwaith band eang cyflym a dibynadwy;
- Mae angen ail-werthuso modelau cyllid sy'n annog sefydliadau i leihau dibyniaeth ar gymhorthdaliadau cyhoeddus;
- Mae'r gweithwyr llawrydd yn y sector diwylliannol yn gyson wedi methu cael cymorth cyflogaeth Llywodraeth y DU, ac nid yw cymorth Llywodraeth Cymru wedi gallu ateb y galw;
- Mae angen gwerthuso'r cymorth ariannol i unigolion a sefydliadau a ddarparwyd yn ystod y cyfnod cau; ac
- Mae angen gwerthuso effaith tymor hir y cyfyngiadau symud ar dreftadaeth, amgueddfeydd, archifau, lleoliadau perfformio, gwyliau Cymreig a chymryd rhan mewn chwaraeon.

Meysydd craffu posibl ar gyfer y Chweched Senedd:

Y ffyrdd y mae maes treftadaeth, y celfyddydau a'r sefydliadau diwylliannol yn ceisio adennill eu colledion neu addasu eu gweithgaredd at ddibenion eraill o ganlyniad i'r pandemig ac i ba raddau y mae lleihau eu dibyniaeth ar gymhorthdal cyhoeddus yn ddull ymarferol o hyd.

Y rôl y gall diwylliant ei chwarae yn adferiad economaidd a chymdeithasol Cymru wedi'r pandemig.

Dylai'r pwyllgor nesaf sicrhau bod sefydliadau cenedlaethol sydd â chyfrifoldeb dros hybu'r Gymraeg mewn digwyddiadau cyfranogol, megis yr Urdd, y Sioe Frenhinol a'r Eisteddfod, yn cael cefnogaeth ragweithiol yn eu gwaith yn sgil colledion economaidd difrifol oherwydd y pandemig.

²⁶ [Adroddiad byr ar effaith pandemig COVID-19 ar y Gymraeg](#)

Dylai'r pwyllgor nesaf ymchwilio i effaith y pandemig ar y defnydd o'r Gymraeg fel iaith gymunedol.

8. Cylch gwaith pwyllgor y dyfodol

68. Ym mis Ionawr 2021, ysgrifennodd y Pwyllgor at randdeiliaid i ofyn:

- Beth y gellir ei ddysgu o brofiad y Pwyllgor a'i waith craffu ar y portffolio cyn y Chweched Senedd?
- Beth fu cryfderau a gwendidau cylch gwaith y Pwyllgor, gan gynnwys a alluogodd y Pwyllgor i weithio'n effeithiol?
- A oes gennych chi a'ch sefydliad farn am ffyrdd y Pwyllgor o weithio? A oes unrhyw ffyrdd newydd o weithio y gellid eu mabwysiadu yn y dyfodol? Efallai yr hoffech ystyried ei ddull ar gyfer casglu tystiolaeth, craffu ar Lywodraeth Cymru, a ffyrdd rhithwir newydd o weithio.

69. Roedd yr ymatebwyr o blaid sefydlu pwyllgor â chylch gwaith tebyg yn y Chweched Senedd. Er enghraifft, dywedodd Efa Gruffudd Jones, o'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol:

“Fy mhrif gyngor ar gyfer y Senedd nesaf fyddai bod parhau i gynnull Pwyllgor sy'n rhoi sylw i faterion polisi sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn hollbwysig, a bod bodolaeth y Pwyllgor ynddo'i hun wedi codi statws y maes polisi hwn.”²⁷

70. Dadleuodd Dathlu'r Gymraeg a Chomisiynydd y Gymraeg y dylai Pwyllgor y Chweched Senedd graffu ar faterion Cymraeg ar draws amrediad ehangach o sefydliadau a phortffolios Llywodraeth Cymru. Dywedodd y Comisiynydd:

“Un enghraifft yn unig o hyn yw'r Gymraeg yn y sector iechyd a gofal lle mae gwir angen craffu ar weithrediad strategaethau a deddfwriaeth yn y maes ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.”²⁸

71. Gofynnodd yr Aelodau i'r Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg a fyddai hi'n gefnogol i bwyllgor olynol gyda'r Gymraeg yn rhan ganolog o'i gylch gwaith. Dywedodd y Gweinidog:

“I think it's really helpful to me as a Minister in relation to the Welsh language... I would suggest that actually, rather than just holding me to account when it comes to the budget, and looking at my tiny budget...

²⁷ Ymateb ysgrifenedig y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

²⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig Comisiynydd y Gymraeg

that actually you ask the other Ministers, who've got huge amounts of money, what they're doing within their budgets in relation to the Welsh language."²⁹

72. Yn ei Archwiliad o'r Cyfryngau yn 2015, galwodd y Sefydliad Materion Cymreig am bwyllgor i edrych ar y cyfryngau a democratiaeth yng Nghymru. Soniodd am yr angen parhaus i 'highlight the democratic deficit Wales faces as a result of an increasingly under-resourced media', gan ychwanegu:

"We believe that the Sixth Senedd must retain a committee with a remit to focus on broadcasting and news in Wales, and that sitting these issues within a remit to look at the health of the wider creative economy remains a wise approach."³⁰

73. Cymeradwywyd cylch gwaith cyfredol y Pwyllgor gan ITV Cymru Wales, a amlinellodd ei werth o ran codi proffil y materion sy'n wynebu darlledwyr gwasanaethau cyhoeddus. Dywedodd Phil Henfrey:

"I would say that the committee's remit has certainly allowed us to discuss not just our Channel 3 licensed service but also the work we are doing across our growing production businesses, our network output - featuring programming that celebrates the best of Wales before an all-UK audience - and our increasingly important online and social media platforms. On that basis it seems very much fit for purpose."³¹

74. Dyma'r eildro yn unig yn hanes y Senedd i'r Gymraeg gael ei chynnwys yn nheitl pwyllgor, a'r tro cyntaf i 'gyfathrebu' gael amlygrwydd yn y modd hwn. Trwy dynnu sylw at bwysigrwydd y pynciau hyn mae'r Pwyllgor wedi codi proffil materion megis newyddiaduraeth a darlledu. Mae hyn wedi arwain at argymhellion polisi sy'n ceisio mynd i'r afael â natur frys newidiadau yn y meysydd hyn.

75. Mae'r Pwyllgor am sicrhau nad yw'r enillion hyn yn mynd yn ofer, ond eu bod yn cael eu datblygu yn y Senedd nesaf.

²⁹ Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 25 Chwefror 2021, para 137

³⁰ Ymateb ysgrifenedig y Sefydliad Materion Cymreig

³¹ Ymateb ysgrifenedig ITV Cymru Wales

Cylch gwaith posibl i bwyllgor olynol yn y Chweched Senedd:

Dylai Aelodau'r Chweched Senedd gynnwys pwyllgor i graffu ar ddiwylliant, y Gymraeg a chyfathrebu, a byddai hyn yn cyflawni rôl werthfawr wrth ganolbwyntio ar:

- anghenion cyfryngau lleol a darlledu yng Nghymru;
- cyflawni uchelgais Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg; a'r
- gwaith i ehangu mynediad i dreftadaeth, y celfyddydau a'r diwydiannau creadigol, a sicrhau bod y sector yn cael ei gefnogi yn sgil y colledion a achoswyd gan y pandemig.

Dylai'r pwyllgor geisio cyfleoedd i gynnal gwaith craffu ar y cyd/ymchwiliadau gyda phwyllgorau eraill. Er enghraifft, gyda'r pwyllgor a fydd yn craffu ar yr economi i edrych ar ddiwydiannau creadigol.

9. Atodiad Deddfwriaeth a gyfeiriwyd i'r Pwyllgor

76. Craffodd y Pwyllgor ar dair set o reoliadau Cymraeg yn ystod y Senedd hon. Sef:

- [Rheoliadau Safonau'r Gymraeg \(Rhif 6\) 2017;](#)
- [Rheoliadau Safonau'r Gymraeg \(Rhif 7\) 2018;](#)
- [Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol \(Y Gymraeg mewn Gwasanaethau Gofal Sylfaenol\) \(Diwygiadau Amrywiol\) \(Cymru\) 2019.](#)

77. Roedd rheoliadau 2017 yn gymwys i sefydliadau yn y sector addysg uwch ac addysg bellach ac roedd rheoliadau 2018 yn gymwys i sefydliadau yn y sector iechyd. Fe wnaethant nodi safonau cyflenwi gwasanaeth, safonau llunio polisi, safonau gweithredol a safonau cadw cofnodion. Fe wnaethant hefyd alluogi Comisiynydd y Gymraeg i gyhoeddi Hysbysiadau Cydymffurfio i'r sefydliadau a enwir yn y rheoliadau, mewn perthynas â'r safonau a nodwyd. Roedd rheoliadau 2019 yn gosod dyletswyddau yn ymwneud â'r Gymraeg, ar ddarparwyr gofal sylfaenol annibynnol yng Nghymru trwy delerau eu cytundebau â Byrddau Iechyd Lleol.

78. Roedd y Pwyllgor yn feirniadol o fethiant Llywodraeth Cymru i gynnwys y Pwyllgor yn gynharach yn y broses ymgynghori ar y ddwy set gyntaf o reoliadau. Er enghraifft, cyflwynwyd y rheoliadau ar ddyletswyddau ar gyfer darparwyr gofal sylfaenol trwy weithdrefn penderfyniad negyddol y Senedd ac roedd yr amseriad ym mis Mehefin 2019 yn golygu mai 10 diwrnod gwaith yn unig oedd gan y Pwyllgor i graffu arnynt a chyflwyno adroddiad yn eu cylch.

79. Yn dilyn hyn, cafodd [Rheoliadau Safonau Iaith Cymraeg \(Rhif 8\) ar gyfer rheoleiddwyr gofal iechyd a'r Awdurdod Safonau Proffesiynol](#) drafft eu rhannu â'r Pwyllgor pan gawsant eu cyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad ym mis Mai 2020. Ysgrifennodd y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg at y Pwyllgor ym mis Ionawr 2021 i ddweud na fyddant yn cael eu dwyn ymlaen yn nhymor y Senedd hon.

Atodiad: Gwaith y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

Y celfyddydau a diwylliant	
Canfyddiadau'r Pwyllgor ynghylch yr Adolygiad Annibynnol o Gymorth ar gyfer Cyhoeddi a Llenyddiaeth yng Nghymru	Mawrth 2018
Meithrin Cydnerthedd: ymchwiliad i gyllid heblaw cyllid cyhoeddus ar gyfer y celfyddydau	Mawrth 2018
Taro'r Tant: Ymchwiliad i ariannu addysg cerddoriaeth a gwella mynediad ati	Mehafin 2018
Ymchwiliad i gynrychiadau ffilm a theledu mawr yng Nghymru	Mai 2019
Minnau hefyd! Rôl y celfyddydau a diwylliant wrth fynd i'r afael â thlodi ac allgâu cymdeithasol	Tachwedd 2019
Clyw fy nghân: Ymchwiliad i'r diwydiant cerddoriaeth fyw	Rhagfyr 2020
Adroddiad byr ar effaith pandemig COVID-19 ar y celfyddydau	Mehafin 2020
Adroddiad byr ar effaith pandemig COVID-19 ar y diwydiannau creadigol	Gorffennaf 2020
Y Gymraeg	
Adroddiad Gwireddu'r Uchelgais: Ymchwiliad i Strategaeth Gymraeg newydd Llywodraeth Cymru	Mai 2017
Adroddiad ar gefnogi a hybu'r Gymraeg	Gorffennaf 2019
Adroddiad Addysgu hanes Cymru	Tachwedd 2019
Adroddiad byr ar effaith pandemig COVID-19 ar y Gymraeg	Rhagfyr 2020
Craffu blynyddol ar waith Comisiynydd y Gymraeg	
Cyfathrebu	
Y Darlun Mawr: Safbwyntiau cychwynnol y Pwyllgor ar ddarlledu yng Nghymru	Chwefror 2017
Tu allan i'r bocs: Dyfodol S4C	Awst 2017

Y Penawdau: Ymchwiliad i Newyddiaduraeth Newyddion yng Nghymru	Mai 2018
Ar yr un donfedd: Ymchwiliad i Radio yng Nghymru	Rhagfyr 2018
Radio cymunedol	Tachwedd 2019
Datganoli Darlledu	Mawrth 2021
Adroddiad byr ar effaith pandemig COVID-19 ar newyddiaduraeth a'r cyfryngau lleol	Medi 2020
Craffu blynyddol ar ddarlledwyr sector cyhoeddus - ITV, BBC ac S4C	
Treftadaeth	
Ddoe a Heddiw – Adroddiad yr Ymchwiliad i'r Amgylchedd Hanesyddol	Mawrth 2018
Adroddiad byr ar effaith pandemig COVID-19 ar dreftadaeth, amgueddfeydd ac archifau	Awst 2020
Ar gof a chadw? Adroddiad ar bwy sy'n cael eu coffáu mewn mannau cyhoeddus	Mawrth 2021
Chwaraeon	
Adroddiad byr ar effaith pandemig COVID-19 ar chwaraeon	Mehefin 2020
Craffu	
Brexit, y sector celfyddydau, diwydiannau creadigol, treftadaeth a'r iaith Gymraeg	Rhagfyr 2018

Atodiad: Ymatebion ysgrifenedig i'r ymgynghoriad

Cyhoeddwyd yr holl ymatebion ar wefan y Pwyllgor:

[Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu - Adroddiad Etifeddiaeth \(senedd.cymru\)](https://www.senedd.cymru)

Reference	Organisation
LEG01	Dyfodol i'r Iaith Gymraeg
LEG02	Cymdeithas yr Iaith Gymraeg
LEG03	ITV Cymru Wales
LEG04	Prifysgol De Cymru
LEG05	CLILC
LEG06	NEU Cymru
LEG07	Sefydliad Materion Cymreig
LEG08	Dathlu'r Gymraeg
LEG09	Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol
LEG10	Amgueddfa Cymru
LEG11	Comisiynydd y Gymraeg
LEG12	Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr
LEG13	CFFI Cymru
LEG14	Disability Can Do
LEG15	Cadw